Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a'r Teulu
Early Years and Family Service
I HOLL blant gael y dechrau gorau mewn bywyd
For ALL children to have the best start in life

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Hysbysiad Preifatrwydd y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd

Mae Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd Sir y Fflint yn darparu ystod o wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i deuluoedd gyda phlant sy'n byw yn Sir y Fflint a'r cyffiniau. Er mwyn darparu ein gwasanaethau, mae angen i ni gasglu gwybodaeth bersonol benodol amdanoch, ac mae gofyn i ni ddweud wrthoch chi am y data personol rydym yn ei gasglu, ei gadw a'i rannu.

Beth Rydym yn ei Gasglu?

Fel arfer, byddwn angen eich enw, enw eich plentyn, eich cyfeiriad, eich manylion cyswllt, ac unrhyw wybodaeth feddygol benodol. Yn achlysurol, efallai bydd arnom angen rhagor o fanylion, a byddwn yn eich hysbysu am hyn ar y pryd.

Pam Fod Angen Hyn Arnom?

Mae angen y wybodaeth hon arnom i allu cysylltu â chi, darparu'r gefnogaeth briodol, er mwyn trefnu gwasanaethau gofal plant, monitro datblygiad eich plentyn, a'ch cyfeirio chi at ddarparwyr gwasanaeth perthnasol fel y bo'n briodol. Rydym yn casglu gwybodaeth ystadegol i wella ein gwasanaethau, ac mae gofyn i ni ddarparu manylion i Lywodraeth Cymru, sy'n darparu'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn disgyn dan seiliau cyfreithiol Buddiant Dilys a Thasg Gyhoeddus.

Mae gofyn i ni gadw eich data am 10 mlynedd yn dilyn cwblhau gwasanaethau at ddibenion archwilio a chydymffurfiaeth.

Eich Hawliau

Mae gennych hawl i:

- gael gweld copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi.
- wneud cais i gywiro neu ddiweddaru eich data personol.
- wneud cais i ddileu neu gyfyngu ar eich data (mewn amgylchiadau penodol).
- wrthwynebu i brosesu eich data (mewn amgylchiadau penodol).

Gwybodaeth Ychwanegol

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu eich data personol, dylid darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn ar y cyd gyda hysbysiadau preifatrwydd Cyngor Sir y Fflint, BIPBC, a Llywodraeth Cymru. Gweler dolenni i'r hysbysiadau hyn isod, at eich gwybodaeth. Os nad oes modd i chi ddefnyddio'r rhyngrwyd, gofynnwch i aelod o dîm Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd am gopi caled.

- **Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd Sir y Fflint (Fersiwn Hir):** sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data er mwyn darparu ein gwasanaethau.
- **Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Sir y Fflint:** Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Sir y Fflint
- **Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru:** Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru
- **Hysbysiad Preifatrwydd BIPBC:** Hysbysiad Preifatrwydd BIPBC

Am ragor o wybodaeth am ei hawliau a sut mae Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd Sir y Fflint yn prosesu eich data personol, cysylltwch â ni yn gyntaf ar ***eyfsbusinessintel@flintshire.gov.uk***

Os, ar ôl cysylltu, nad ydych yn fodlon gyda sut rydym yn prosesu eich data personol, galwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'u gwefan ar www.ico.org.uk neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

Manylion y Ddogfen

Rhif y Fersiwn	002
Dyddiad Cyhoeddi	17/10/26
Adolygwr	Tîm Gwybodaeth Busnes